Cynhelir cyfarfod or Cyngor ar Nos Iau 13eg o Fawrth 2025 am 7.30.
Yn bresennol oedd John Jones, Ffuon Williams, Menai Hughes, Guto Jones, Prys Ellis, Einion Edwards, Dyfan Jones (cadeirydd) a cyn Gwennol Ellis. Cafwyd ymddiheuriadau gan Llio Morris a Maria Roberts,
Cafwyd yr cofnodion blaenorol yn gywir.
Datgan diddordeb ir AGENDA – neb.
Codi or cofnodion - Bws Llew Jones – cafwyd ar ddeall bod y bws yn trafeilio y ffordd arall ar hyn o bryd ac ddim yn defnyddio ffordd Tan Llan.
Croesawyd Marc Roberts atom i ddadansoddi yr adroddiad ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ddiweddar.
Gohebiaeth
[1] Unllais Cymru – tal aelodaeth £150.00 pasiwyd iw dalu.
[1.1] Defib Store Ltd – anfoneb am y padiau a batris i ddau diffubiwlwr -£405.60.
[1.2] Cyflog y Clerc - trafodwyd
[1.3] Kids Cancer Charity - gofyn am gyfraniad - pasiwyd ei adael.
[1.4] Theatr Bara Caws – gofyn am gyfaniad - pasiwyd iw adael.
[1.5] Ambiwlans Awyr – gofyn am gyfraniad – pasiwyd iw adael.
[1.6] Cwmni Pum Plwyf Penllyn – gofyn am gyfranid - pasiwyd iw adael.
[1.7] Toiledau – cytunwyd ein bod yn ysgrifennu at Cyngor Conwy yn nodi ei bod yn hapus i gario mlaen gyda cymeryd y toiledau drosodd ir Cyngor Bro ei rhedeg. Penodwyd Howell Jones Llanrwst fel ein cyfreithiwr efo'r trosglwyddo.
[1.8] Ffordd Tan Llan – mae'r cynghorwyr yn mynegi ei pryder am ddiogelwch plant ar cyhoedd a ffordd Tan Llan llawer o drafnidiaeth ac ein bod yn mynegi ein pryder am ddiogelwch plant sydd yn teithio drwy'r giat or cae chwarae, ysgrifennu at Cyngor Sir yn gofyn am gael culhau y ffordd ac gosod rhwystrau o flaen y giat cae chwarae.
[1.9] Cyngor sir Conwy - arian grant Ionawr Canolfan Glyd - £348.68.
[2] Bryson Recycling - Anfoneb am 4 bin brown gwastraff gardd - £102.00 pasiwyd iw dalu.
[2.1] Carol Humphreys – anfoneb am flodau ir twbiau yn y pentref - £26.51. pasiwyd iw dalu.
[2.2] Cyngor Sir Conwy Ceisiadau Cynllunio 5 Uwch y Llan, Unedau a dymchwel to flat y caffi, a Adeiladu Ty tir ger Tyddyn Bychan, Cefn Brith – dim gwrthwynebiad ir un 3 cais.
[2.3] Ffioedd claddu – wedi derbyn £800.00.
[2.4] Adroddiad y cyh Gwennol Ellis - dywedodd fod 4 allan or 5 annedd Cartrefi Conwy yn yr ardal wedi ei gosod.